COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 083

Amseru: Arferol

Teitl: Diwygio'r Llawlyfr Panel Sicrhau Ansawdd

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Gwirfoddolwyr

Crynodeb Gweithredol:
Er mwyn cynyddu capasiti a chadernid y Panel Sicrhau Ansawdd, diwygiwyd y llawlyfr er mwyn adlewyrchu'r newidiadau canlynol:

- Estyn cylch gorchwyl y Panel i gynnwys "unrhyw faes lle mae'r heddlu mewn cysylltiad â'r cyhoedd".
- Dileu'r adran "cyflwyniad i drin cwynion", gan y bydd gwybodaeth am faes ffocws penodol yn cael ei chynnwys mewn llawlyfrau ar wahân ar gyfer aelodau.
- Mae uchafswm nifer yr aelodau wedi codi o 12 i 15 (gyda chworwm o 7).
- Cyfeiriad penodol at SCHTh yn croesawu ceisiadau gan bobl o gefndiroedd amrywiol a hawl y Comisiynydd i wrthod unrhyw gais er mwyn cynnal annibyniaeth y Panel.
- Y newid o ran amlder cyfarfodydd Panel, o un cyfarfod y chwarter i gyfarfod bob yn ail fis.
- Cyflwyno gweithgareddau Panel estynedig i gynnwys grwpiau cymunedol amrywiol yng ngwaith craffu'r Comisiynydd.
- Gwelliannau i'r ffordd y mae canfyddiadau'r Panel yn cael eu hadrodd i'r Comisiynydd a'r Heddlu.

Argymhelliad:

Gofynnir i'r Comisiynydd gymeradwyo'r diwygiadau i lawlyfr y Panel Sicrhau Ansawdd.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 17/7/2018